**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y BIL IECHYD MEDDWL**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru o ran materion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Iechyd Meddwl ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Tachwedd 2024. Mae'r Bil ar gael yn: [Tŷ'r Arglwyddi]https://bills.parliament.uk/publications/56783/documents/5312.

**Amcanion Polisi**

3. Mae amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yn parhau fel y'u nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a osodwyd ar 20 Tachwedd 2024.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

5. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, sy'n parhau'n gywir.

6. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU wedi parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd ynglŷn â'r gwaith o ddatblygu'r Bil, gan gynnwys gwelliannau gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

7. Yn dilyn Ail Ddarlleniad y Bil ar 25 Tachwedd 2024, cyflwynodd Llywodraeth y DU ar 10 Rhagfyr 2024 a 8 Ionawr 2025, yn y drefn honno, welliannau i'r cymalau canlynol o'r Bil i'w hystyried yn y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi:

- Y set gyntaf o welliannau gan Lywodraeth y DU:
  Cymal 31 a chymalau newydd 32 a 52

- Yr ail set o welliannau gan Lywodraeth y DU:
  Cymal 43

Gallwch weld y gwelliannau hyn drwy'r ddolen ganlynol: Bil Iechyd Meddwl – cyhoeddiadau Tŷ'r Arglwyddi – Biliau Seneddol – Senedd y DU.

8. Mae cymal 52 wedi'i ddrafftio ar gais Llywodraeth Cymru. Nodais yn fy Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ein bod yn gweithio tuag at gyflawni hyn pan ddisgrifiais y materion a oedd yn codi yn sgil cymal 51.

9. Mae disgwyl i'r cyfnod Pwyllgor ddechrau ar 14 Ionawr, ac mae rhagor o drafodion wedi'u trefnu ar gyfer mis Ionawr 2025. Bydd y gwelliannau hyn yn cael eu hystyried yn ystod y trafodion hynny.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, fe wnes i argymell bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer cymalau 1 i 3, 5 i 8, 10 i 19, 21 i 32, 34 i 37, 39 i 46, a 49 i 51, Atodlen 1 ac Atodlen 2.

11. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth y DU wedi gosod dwy set o welliannau arfaethedig, ac mae nifer ohonynt yn ddarpariaethau ychwanegol yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer. Yn fy marn i, mae angen Memorandwm Cydsyniad Ddeddfwriaethol atodol mewn perthynas â'r gwelliannau canlynol:

Cymalau 31 a 32 – Atgyfeiriadau at dribiwnlys o ran cleifion sy'n ymwneud ag achosion troseddol etc ac Atgyfeiriadau: cleifion dan gyfyngiadau nad ydynt yn ddarostyngedig i amodau amddifadu o ryddid

12. Mae cymal 31 a chymal newydd 32 yn diwygio'r cyfnodau atgyfeirio awtomatig ar gyfer troseddwyr sydd ag anhwylder meddwl sy'n destun cyfyngiadau arbennig (Rhan 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("Deddf 1983") – cleifion dan gyfyngiadau) ac mae cymal newydd 32 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag atgyfeiriadau awtomatig ar gyfer y rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i amodau amddifadu o ryddid. Mae'r ddau welliant hyn yn ategu'r amcan polisi o ragor o fesurau diogelu a chraffu barnwrol annibynnol gan y tribiwnlys o ran cyfnodau cadw a'r egwyddor yn ymwneud â'r cyfyngiad lleiaf.

13. Mae'r gwelliannau'n dileu'r darpariaethau ynghylch adolygiadau tribiwnlysoedd mewn perthynas â chleifion nad ydynt yn ddarostyngedig i amodau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid o gymal 31 ac yn mewnosod y darpariaethau hynny yng nghymal newydd 32 yn lle hynny. Gan fod y ddarpariaeth yng nghymal newydd 32 wedi'i chynnwys yng nghymal 31 yn flaenorol, mae'r gwelliannau arfaethedig hyn yn strwythurol a thechnegol eu natur ac nid yn ddarpariaeth newydd felly.

14. Mae’r gwelliannau hefyd yn symud darpariaeth o gymal 31 i gymal newydd 32, sef y ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i’r Ysgrifennydd Gwladol atgyfeirio pob claf Rhan 3 dan gyfyngiadau sy’n cael ei gadw mewn ysbyty at y tribiwnlys pan fo cyfnod o 12 mis wedi pasio, ac nad oes atgyfeiriad wedi’i wneud eisoes at y tribiwnlys.

15. Diben y diwygiad sy'n gwahanu'r darpariaethau yng nghymal newydd 32 oddi wrth y rhai yng nghymal 31 yw darparu ar gyfer cychwyn y darpariaethau ynghylch adolygiadau tribiwnlysoedd sy'n ymwneud â chleifion sy'n ddarostyngedig i amodau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid (e.e. y rhai yng nghymal 31) ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol; tra bydd y darpariaethau ynghylch adolygiadau tribiwnlysoedd o ran cleifion nad ydynt yn ddarostyngedig i amodau amddifadu o ryddid, a dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i atgyfeirio pob claf dan gyfyngiadau Rhan 3 ar ôl 12 mis pan na fo atgyfeiriad wedi'i wneud eisoes, yn ddarostyngedig i'w cychwyn drwy reoliadau (h.y. y darpariaethau hynny sydd bellach wedi'u cynnwys yng nghymal 32).

16. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan RhS 29 mewn perthynas â chymal 31. Er nad yw'r gwelliant i gymal 31 a'r ddarpariaeth yng nghymal newydd 32 yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf o ystyried bod y gwelliannau o natur strwythurol a thechnegol a'u bod, yn achos cymal newydd 32, wedi'u cynnwys yng nghymal 31 yn flaenorol, mae'r gwelliannau hyn yn cael eu cwmpasu gan ran amgen y prawf RhS 29.2(iii) o wneud darpariaeth berthnasol y tu hwnt i derfynau unrhyw gydsyniad sydd eisoes wedi'i roi gan y Senedd, gan nad yw'r Senedd wedi rhoi cydsyniad eto mewn perthynas â chynnwys y cymal hwnnw. Felly, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol i nodi'r newidiadau sy'n cael eu gwneud.

Cymal 43 – Pŵer y tribiwnlys i argymell ôl-ofal

17. Mae cymal 43 yn diwygio adran 72 o Ddeddf 1983 drwy wneud darpariaeth i estyn pŵer y Tribiwnlys Iechyd Meddwl (sy'n cynnwys Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru) i wneud argymhellion ac yn mewnosod is-adran newydd (8) yn yr adran honno. Gwneir gwelliant pellach i'r diffiniad o "after-care services" yn adran newydd 72(8), fel ei fod yn cynnwys “services provided or arranged under section 117 [of the same Act]”.

18. Mae angen y gwelliant hwn i sicrhau dull cyson o ymdrin â diwygiadau i Ddeddf 1983 a wneir gan gymal 4 a diwygiadau cysylltiedig i'r cymal hwnnw, nad ydynt yn destun y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn gan fod cymal 4 yn gymwys i Loegr yn unig.

Cymal 52 – Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol

19. Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol, nodais fod y Bil yn cynnwys darpariaeth i wneud diwygiadau canlyniadol yng nghymal 51 gan roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth y Senedd, heb roi pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru i wneud hynny neu ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, neu i ymgynghori â hwy. Yn dilyn trafodaeth gyda Llywodraeth y DU, mae cymal newydd 52 bellach wedi'i gyflwyno. Mae cymal newydd 52 yn rhoi pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r pŵer hwn yn cyfateb i'r hyn a ddarperir i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 51.

20. Ar hyn o bryd, gweithdrefn y Senedd ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn yw'r weithdrefn negyddol.

**Barn Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad**

21. Nodais yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol fod Llywodraeth y DU o’r farn bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer cymalau 1 i 3, 5 i 8, 10 i 19, 21 i 30, 32, 35, 39 i 40, 42 i 46, 49, Atodlen 1 ac Atodlen 2.

22. Fel y cyfeirir ato ym mharagraff 10 uchod, fy marn i yw bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 1 i 3, 5 i 8, 10 i 19, 21 i 32, 34 i 37, 39 i 46, a 49 i 51, Atodlen 1 ac Atodlen 2.

23. Mae gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad ar gyfer cymalau 31, 34, 36, 37, 41, 50, a 51. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnal asesiad eto o oblygiadau datganoli cymal newydd 32 (er y byddai'n ymddangos yn debygol y byddai'n ystyried y cymal hwn yn yr un modd â chymal 31) na chymal 52.

24. Fodd bynnag, yn fy marn i, mae'r cymalau a restrir yn y paragraff blaenorol, gan gynnwys cymalau newydd 32 a 52 yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i fater datganoledig, sef iechyd y cyhoedd. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog 29, mae’n ofynnol cael cydsyniad y Senedd.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Iechyd Meddwl**

25. Yn fy Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol, nodais fy rhesymau dros ddod i'r casgliad y dylai'r darpariaethau hyn ar gyfer Cymru gael eu gwneud drwy'r Bil Iechyd Meddwl. Yn fy marn i, mae'r rhesymau hyn yn parhau i fod yn berthnasol, ac maent hefyd yn berthnasol i'r darpariaethau newydd sy'n cael eu cynnig. Rwy'n eu hailddatgan isod, er hwylustod cyfeirio.

26. Rwy'n cefnogi'r diwygiadau hyn a fydd yn moderneiddio’r ddeddfwriaeth iechyd meddwl i roi mwy o ddewis, ymreolaeth, hawliau a chymorth gwell i gleifion, yn ogystal â sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol cyfnod eu triniaeth. Mae’r Bil hefyd yn cynnwys mesurau i wella gofal a chymorth i bobl sydd ag anabledd dysgu a phobl awtistig, gan leihau’r ddibyniaeth ar ofal mewn ysbytai.

27. Ceir llawer iawn o ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir ar y ddwy ochr i’r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Byddai peidio â gwneud darpariaethau yn y Bil hwn yn creu risg o fwy o wahaniaethau rhwng y gwasanaethau sydd ar gael yn y ddwy wlad.

28. At hynny, mae’r cyfnodau cadw a’r hawliau i wneud cais i’r tribiwnlys yn fesurau diogelu allweddol o ran amddiffyn hawliau unigolion sy’n ddarostyngedig i Ddeddf 1983. Rwyf felly am achub ar y cyfle hwn i roi'r newidiadau hynny ar waith yma yng Nghymru yn unol â dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran gwella hawliau unigolion yng Nghymru.

29. Er bod y Bil hwn yn rhoi sylw i faterion datganoledig, mae hefyd yn gwneud darpariaeth o ran materion a gedwir yn ôl. Rwyf felly yn ystyried bod deddfu drwy Fil gan Lywodraeth y DU yn cynnig y dull gweithredu mwyaf cydlynol ar gyfer y darpariaethau a gyflwynir yn y ddeddfwriaeth hon.

**Goblygiadau ariannol**

30. Mae goblygiadau ariannol y Bil hwn yn parhau fel y'u nodwyd yn fy Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol. Mae'r asesiad effaith a osodwyd ar y cyd â'r Bil (yn Bil Iechyd Meddwl - cyhoeddiadau Tŷ'r Arglwyddi – Biliau Seneddol – Senedd y DU) yn cynnwys costau i Gymru a amcangyfrifwyd drwy gymhwyso'r costau cynnydd ar gyfer Lloegr. Mae costau ac arbedion costau a amcangyfrifwyd ar gyfer Lloegr wedi'u codi, gydag effeithiau yn dibynnu ar y prosesau y mae’r diwygiadau yn gysylltiedig â hwy.

31. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau (Cymru a Lloegr) ar gyfer y cyfnod arfarnu 20 mlynedd o hyd yn £5.7 biliwn. Bydd y gwaith gweithredu yn cael ei gyflwyno’n raddol ac ni rennir y costau yn gyfartal felly dros y cyfnod o 20 mlynedd. Yn yr asesiad effaith, amcangyfrifir bod cyfanswm y costau i Gymru dros y cyfnod o 20 mlynedd yn £425 miliwn ar draws y sectorau iechyd, tai a gofal cymdeithasol.

32. Pe bai Senedd Cymru yn cydsynio i’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ynghyd â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn, byddai hyn ar sail cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU i gynnal y gwaith gweithredu fel yr amlinellir yn yr asesiad effaith a osodwyd gerbron Senedd y DU.

**Casgliadau**

33. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan Lywodraeth y DU gan y byddai hyn, yn unol â'n hymrwymiad i wella hawliau unigolion yng Nghymru, yn sicrhau system gydlynol o hawliau ledled Cymru a Lloegr ac yn ategu ein hamcanion polisi o ran strategaethau iechyd meddwl newydd.

34. Rwyf felly yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.

**Sarah Murphy AS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**10 Ionawr 2025**